Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Un Llais Cymru
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
Cynghorau Tref a Chymuned

1 Mawrth 2016

RHANNU PWRPAS: RHANNU DYFODOL – CANLLAWIAU STATUDOL AR GYFER DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Heddiw mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol. Rydym wedi gwrando'n ofalus ar farn y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y canllawiau terfynol a gyhoeddwyd ar 26ain Chwefror.

Mae'r canllawiau statudol yn cynnwys canllawiau a anelir yn benodol at gynghorau tref a chymuned, y rhai a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, i gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion lleol a nodir yn y Cynllun Llesiant Lleol sy'n cael effaith yn eu hardaloedd. Fodd bynnag mae gan bob cyngor tref a chymuned rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella lles eu hardal ac felly byddwn hefyd yn annog y cynghorau hynny sydd ddim yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gymryd rhan weithredol yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; ac i ystyried pa gyfraniad y gallant fod yn ei wneud tuag at fodloni amcanion lleol a fabwysiadwyd ar gyfer eu hardaloedd hwy.

Fydd yr amcanion hyn yn nodi sut fydd bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried sut maent yn cyfrannu at Gymru lewyrchus, gydnerth, iachach a mwy cyfartal, gyda chymunedau cydlynus, diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r saith nod llesiant yma yn darparu at ddiben cyffredin sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, a gefnogir gan y pum ffordd o weithio sy'n ofynnol gan y Ddeddf, a gall wella llesiant pobl a chymunedau yng Nghymru.

Bydd y Cynlluniau Llesiant Lleol cyntaf yn cael ei gynhyrchu yn y flwyddyn yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2017; felly ni fydd y dyletswydd ar y rhai cynghorau tref a chymuned hynny sy'n cyflawni'r meini prawf i gyfrannu at gyflawni'r amcanion yn y cynlluniau yn dod i rym yn ymarferol tan 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y cyfamser byddwn yn eich annog i gymryd rhan yn y broses o asesu lles yn eich ardaloedd chi; â'r broses o nodi beth ddylai'r amcanion llesiant lleol hynny fod. Fel ymgynghorai statudol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fydd rôl bwysig ichi chwarae.

Mae'r canllawiau ar gael drwy glicio ar y linc isod.

http://llyw.cymru/topics/improvingservices/public-services-boards/?lang=cy

Yn gywir,

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services